

Cofnodion y CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

a gynhaliwyd yn Neuadd y Ddinas, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Caerdydd CF10 3ND
ddydd Mercher 26 Medi 2018 am 6.00pm.

Yn bresennol:

Aelodau a oedd yn bresennol:

David Jenkins (Cadeirydd)

Jeff Andrews, Mike Ash-Edwards, Paul Ashman, Glenn Bowen, Chris Campbell, John Chown, David Evans, Simon Harris, Julia Houlston-Clark, Nigel Keane, Judy Leering, Karen Lewis, Claudia Limpert, David Madge, Nicola Mehegan, Mike Owen, Dave Palmer, David Smith, Tamsin Stirling, Nigel Streeter, Derek Walker, Kathryn Williams, Mike Williams, Robin Williams

Aelodau a oedd wedi penodi dirprwy i bleidleisio ar eu rhan yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol:

Catherine Evans.

1. Croeso a sylwadau agoriadol y Cadeirydd

Croesawyd yr aelodau i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018 gan y Cadeirydd, David Jenkins. Ar ran y Bwrdd, mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r staff a'r Uwch Dîm Rheoli am eu gwaith caled yn ystod blwyddyn lwyddiannus i Ganolfan Cydweithredol Cymru.

2. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr aelodau a restrir uchod a oedd wedi penodi dirprwy, a'r unigolion canlynol:

Alan Burge, Lis Burnett, Julie Cook, Mark Edwards, Ann Elliot, Bill Hudson, Sonia Reynolds, Rachel Rowlands, Anne Stephenson, Sue Thomas.

3. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol blaenorol

Cytunwyd bod cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 22 Medi 2017 yn gofnod cywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5. Adroddiad yr Ysgrifennydd

Croesawyd yr aelodau a'r gwesteion i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gan y Prif Weithredwr/Ysgrifennydd, Derek Walker.

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd adroddiad yn crynhoi perfformiad y Ganolfan yn 2017/18. Dywedodd fod gwaith y Ganolfan yn fwy perthnasol nag erioed. Dywedodd fod y deuddeg mis diwethaf wedi bod yn flwyddyn dda i'r Ganolfan. Roedd y Ganolfan yn parhau i arwain y gwaith o gefnogi busnesau cymdeithasol ledled Cymru a grymuso pobl i wella eu bywydau a'u bywoliaethau. Mae'r gwaith mewnol i gryfhau'r sefydliad wedi bod yn effeithiol hefyd.

Fodd bynnag, er bod y Ganolfan mewn sefyllfa gref, roedd heriau'n parhau. Yn benodol, roedd yr her o sicrhau cyllid ar gyfer ein gwaith mewn cyd-destun ariannol cymhleth yn parhau. Hefyd, roedd her arall yn deillio o ddatganiadau polisi diweddar Llywodraeth Cymru, a'u diffyg pwyslais ar yr economi gymdeithasol.

Cafwyd dau sylw gan aelodau:

Mynegwyd pryder y byddai'r Ganolfan yn colli aelodau staff da os na fyddai modd sicrhau rhagor o gyllid ar gyfer y prosiect Cydweithredu i Ofalu.

Mewn Cyfarfod Cyffredinol Blaenorol, trafodwyd y mater o ddenu pobl ifanc i'r Ganolfan a'r Bwrdd.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y Ganolfan wedi sicrhau yn ddiweddar bod cyllid ar gyfer y prosiect Cydweithredu i Ofalu yn cael ei ymestyn, gan ddiogelu swyddi am gyfnod hirach. Hefyd, nododd y Prif Weithredwr fod y Ganolfan yn archwilio sut i amrywio ffrydiau incwm yn gyson.

Cytunodd y Prif Weithredwr fod angen ymgysylltu â mwy o bobl ifanc, a chytunodd fod angen archwilio'r syniad o ddarparu cymorth penodol ar gyfer mentrau cydweithredol o dan arweiniad pobl ifanc yn y dyfodol.

Yn olaf, mynegodd y Prif Weithredwr ei ddiolch i'r aelodau, y bwrdd a'r staff am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.

Derbyniwyd yr adroddiad.

Cytunwyd: Cymeradwyo adroddiad yr Ysgrifennydd.

6. Cyflwyno Cyfrifon wedi'u Harchwilio 2016/17

Cyflwynodd Trysorydd y Ganolfan, Jeff Andrews, gopi drafft o gyfrifon 2017/18, a oedd wedi'i adolygu gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio a'i argymhell ar gyfer cymeradwyaeth gan y Bwrdd.

Cyfeiriodd y Trysorydd at yr heriau a oedd yn wynebu'r Ganolfan a'r economi yn gyffredinol dros y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd y Trysorydd fod yr Adroddiad Cyffredinol ardderchog yn adlewyrchu ymrwymiad a gwaith caled parhaus y Tîm Cyllid.

Cafwyd cynnig ffurfiol i gymeradwyo'r cyfrifon.

Cytunwyd: Cymeradwyo cyfrifon wedi'u harchwilio 2017/18.

7. Ethol Bwrdd Cyfarwyddwyr 2018/2019

Eglurodd y Cadeirydd fod 8 Cyfarwyddwr yn cael eu hethol i'r Bwrdd, ac o dan y rheolau a fabwysiadwyd yn 2014, mae'n rhaid i draean ohonynt ymddeol bob blwyddyn. Eleni mae'r tri Chyfarwyddwr canlynol wedi ymddeol:

Jeff Andrews
Mike Ash-Edwards
Nigel Keane

Mae'r Cyfarwyddwyr canlynol sy'n ymddeol yn gymwys i gael eu hailethol, ac maent wedi cyflwyno eu henwau eto:

Jeff Andrews
Nigel Keane

Mae enwebiad arall wedi'i dderbyn ar gyfer:

Julia Houlston-Clark

Nid oes unrhyw enwebiadau eraill.

Cafwyd cynnig ffurfiol i ethol y tri ymgeisydd.

Cytunwyd: Ethol Jeff Andrews, Julia Houlston-Clark a Nigel Keane.

8. Ailbenodi Archwilwyr

Cafwyd cynnig ffurfiol i ailbenodi Broomfield and Alexander yn archwilwyr allanol y Ganolfan.

Cytunwyd: Cymeradwyo penodi Broomfield and Alexander yn archwilwyr allanol y Ganolfan ar gyfer 2018/19.

9. Cau'r Cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben tua 6.30pm.

Llofnod: _____

Dyddiad: _____

Yn parhau...